Adroddiad i'r:	**Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg**
Dyddiad y Cyfarfod:	**7 Gorffennaf 2019**
Swyddog/Aelod Arweiniol:	**Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol** **Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**
Awdur yr Adroddiad:	**Emma Jones, Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd**
Teitl:	**Gwybodaeth Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad eglurhaol ar gyfer polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gwnaed cais gan y Pwyllgor Craffu ar gyfer Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg i adolygu'r polisi.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn adolygu Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cymraeg Cyngor Sir Ddinbych ac ystyried a oes angen newidiadau yn seiliedig ar ofynion yr iaith Gymraeg.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mabwysiadwyd y polisi Enwi a Rhifo Strydoedd gan Sir Ddinbych yn y Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2014. Roedd y polisi yn seiliedig ar arfer orau Awdurdodau Lleol eraill. Yna cyfieithwyd y polisi o'r Saesneg i'r Gymraeg. Atodir y polisi cyfredol yn Atodiad 1.

4.2 Mae'r polisi cyfredol wedi ei addasu unwaith ers iddo gael ei fabwysiadu. Gwnaed cais gan ddatblygwr lleol i gynnwys "Cae" fel rhagddodiad i enwau stryd Cymraeg, gan nad oedd hwn ar y rhestr o enwau derbyniol. Ymgorfforwyd y newid hwn i'r polisi ac fe'i cymeradwywyd gan benderfyniad Aelod Arweiniol wedi'i ddirprwyo ym mis Awst 2018.

4.3 Ym Mhwyllgor Craffu mis Chwefror, codwyd sawl pwynt ynghylch fersiwn Gymraeg y polisi. Er enghraifft, mae'r polisi Saesneg yn gwahardd defnyddio y

fannod ‘The’ yn Saesneg, ac felly ‘Y/Yr ‘ yn Gymraeg. Roedd hyn yn achos problem yn y fersiwn Gymraeg gan bod 'y fannod’ yn angenrheidiol yn y Gymraeg fel rhagddodiad i enwau penodol, e.e. Y Rhyl, Y Bala.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Amherthnasol

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho’r adroddiad Asesiad o Effaith ar Les cyflawn o’r wefan , a’i gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

7.1 Amherthnasol

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau gan y Grŵp Llywio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Amherthnasol

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Swyddog Cyswllt:

Emma Jones, Tîm Cynllunio Strategol

Ffôn: 01824 708049